

## Cael at wasanaethau cyngor pro bono

### Beth mae 'pro bono' yn ei olygu?

Ymadrodd Lladin yw 'pro bono publico' (sydd fel arfer yn cael ei dal fyrru i pro bono) sy'n golygu 'er lles y cyhoedd'. Defnyddir yr ymadrodd i gyfeirio at waith proffesiynol a wneir yn wirfoddol a heb dâl, neu am ffi gostyngol, fel gwasanaeth cyhoeddus.

### Beth rwyf angen ei wybod cyn darganfod pa wasanaethau pro bono sydd ar gael?

Os ydych yn meddwl y gall fod arnoch angen cymorth proffesiynol gyda mater, mae'n bwysig ceisio am y cymorth hwnnw cyn gynted â phosib. Mae dau reswm am hyn:

1. Mae rhai o'r mudiadau sy'n cynnig cymorth pro bono yn gweithredu drwy ddsbarthu achosion drwy wasanaeth broceriaeth, gan baru rhywun mewn angen â gweithiwr proffesiynol a all helpu. Gall hyn gymryd amser, felly, ni all llawer ohonynt ddsbarthu materion brys oherwydd cyfyngiadau amser;
2. Mae'n debygol y bydd hi'n haws i weithiwr proffesiynol eich helpu i ddatrys mater os yw'n delio gydag ef o gyfnod cynnar, yn hytrach na cheisio helpu ryw ben nes ymlaen.

Os ydych yn gallu dod o hyd i rywun i'ch helpu ar drefniant pro bono mae'n bwysig hefyd eich bod yn casglu unrhyw ddogfennau sydd gennych at ei gilydd, fel bod gennych yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i'r gweithiwr proffesiynol ei hystyried wrth gwrrdd/siarad â chi am y tro cyntaf. Bydd hyn o gymorth i sicrhau'r defnydd gorau o'r amser mae'n gallu ei roi i chi am ddim neu am bris rhatach, a all weithiau fod wedi'i gyfyngu gan y cynllun a'ch cyflwynodd i'r gweithiwr proffesiynol.

### Ble all pobl a mudiadau yng Nghymru gael cymorth pro bono?

Mae nifer o fudiadau yn cynnig mynediad at wasanaethau pro bono, mewn meysydd pwnc amrywiol, gan gynnwys y rheini a nodir isod. Sylwch nad yw'r rhestr hon yn cynnwys pob un, ac mae'n bosib y byddai gweithwyr proffesiynol yn eich ardal leol yn ystyried ymgymryd â materion pro bono gan ystyried achosion yn unigol, felly, gall fod yn werth mynd ar drywydd yr opsiwn hwnnw os oes arnoch angen cymorth.

- **Law Works Cymru** - <http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/lawworks-cymru> a [LawWorksCymru@lawworks.org.uk](mailto:LawWorksCymru@lawworks.org.uk).

Nod prosiect LawWorks Cymru yw sicrhau mynediad at arbenigedd cyfreithiol am ddim i unigolion a chymunedau yng Nghymru, sydd angen cyngor cyfreithiol ac sy'n methu â thalu.

Mae'r prosiect wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac fe'i sefydlwyd er mwyn helpu i gydlynu darpariaeth pro bono drwy Gymru gyfan. Yn hytrach na darparu gwasanaeth rheng flaen, rôl y prosiect yw gweld ym mha feysydd y mae angen penodol er mwyn targedu

gwaith pro bono'n effeithiol, brocera gwaith achos, a chefnogi cyfreithwyr gwirfoddol wrth iddynt roi cyngor dros y ffôn, drwy ebost, ac wyneb yn wyneb.

Mae'n gallu cynnig cymorth amrywiol i fudiadau trydydd sector yn ogystal ag unigolion, gan gynnwys clinigau cyngor cyfreithiol, cyngor ac adnoddau arlein, a gwaith achos dwys.

- **Prosiect ProSupport** - <http://www.pbi.org.uk/social-enterprise/> a 01646 689222.

Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei gynnal gan Fenter Busnes Sir Benfro (PBI), yn gweithio gyda rhwydwaith o weithwyr proffesiynol a fydd yn rhoi cyngor proffesiynol am ddim i grwpiau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol yn sir Benfro ar adegau hanfodol yn eu datblygiad.

- **B2C Proffesiynol - menter gan Brosiect Busnesau yn Cefnogi Cymunedau (B2C)** - <http://www.b2cwaales.co.uk/initiatives/b2c-professionals/> a 01745 353110

Mae prosiect Busnesau yn Cefnogi Cymunedau (B2C) yn cael ei ariannu gan y Loteri a'i gynnal gan y chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol yn y Gogledd. Nod y prosiect yw creu perthynas rhwng busnes a chymunedau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr yn chwe sir y Gogledd; sir y Fflint, Wrecsam, sir Ddinbych, Conwy, Môn a Gwynedd.

Mae'r prosiect yn cynnal nifer o fentrau, gan gynnwys *B2C Proffesiynol* sy'n cysylltu ystod eang o gwmnïau proffesiynol arbenigol, o gyfreithwyr i ddylunwyr graffig, ag amrywiaeth o grwpiau cymunedol sydd â diffyg adnoddau i dalu am gyngor a chymorth proffesiynol.

- **i-Probono** - <http://www.i-probono.com/>.

i-Probono yw'r rhwydwaith arlein cyntaf sy'n cysylltu mudiadau sydd angen cymorth cyfreithiol â chyfreithwyr a myfyrwyr sydd am ddefnyddio eu sgiliau cyfreithiol er lles y cyhoedd.

Mae'n rhwydwaith di-elw sydd â chyrrhaeddiad byd-eang sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn prosiectau o amgylch y byd, ac yn galluogi mudiadau i ddod o hyd i gymorth ar draws awdurdodaethau.

- **Uned Pro Bono y Bar** - <http://www.barprobono.org.uk/> a 0207 092 3960.

Elusen yw Uned Pro Bono y Bar sy'n helpu i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol pro bono (am ddim) gan fargyfreithwyr gwirfoddol.

Mae'n cynnig cymorth gyda:

- cyngor, cynrychiolaeth a chymorth wrth gyfryngu
- achosion ym mhob maes cyfreithiol
- achosion pan nad yw trafodion wedi'u dechrau eto
- achosion ym mhob tribiwnlys a llys yng Nghymru a Lloegr.

Dim ond i'r rheini na all fforddio talu ac na all gael arian cyhoeddus (Cymorth Cyfreithiol) y mae cymorth pro bono ar gael.

- **Charity Property Help** - <http://www.rics.org/uk/about-rics/what-we-do/corporate-responsibility/charity-property-help/> a 0870 333 1600.

Mae Charity Property Help yn wasanaeth pro bono sy'n cael ei gynnal gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), mewn partneriaeth ag NCVO a Charity Finance Directors' Group. Nod y gwasanaeth yw cynorthwyo mudiadau gwirfoddol yn y Deyrnas Unedig, drwy roi cymorth ac arweiniad am ddim ar unrhyw fater yn ymwneud ag eiddo elusennau, o gynllunio i'r amgylchedd, i reoli prosiect a gwaith cynnal a chadw.

## Ffynonellau cymorth pellach i fudiadau gwirfoddol

Yn ogystal â'r mudiadau uchod gallech ystyried cysylltu â'r canlynol i gael cymorth ar faterion amrywiol. Sylwch, fodd bynnag, ei bod yn annhebygol y byddant yn gallu rhoi cyngor ffurfiol i chi yn yr un modd ag y gall y rheini sy'n gweithio drwy gynllun pro bono. Eto nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob mudiad a all eich helpu.

- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol neu'ch Canolfan Wirfoddoli leol** - <http://www.wcva.org.uk/>, 0800 2888 329 a <http://www.wcva.org.uk/members-partners/county-voluntary-councils>.

Mae WCVA yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli ledled Cymru, er mwyn darparu rhwydwaith o fudiadau cymorth sy'n cynorthwyo pobl sydd wedi'u hysbrydoli i wneud gwahaniaeth positif yn eu cymunedau.

Maent oll yn helpu elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr unigol mewn ffyrdd amrywiol, gyda WCVA ar waith ar lefel genedlaethol a'r cynghorau gwirfoddol sirol/canolfannau gwirfoddoli ar lefel leol.

- **Cyngor Ar Bopeth (CAB)** - <http://www.citizensadvice.org.uk/>

Mae CAB yn cynnig cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd am ddim i bawb ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

- **Y Comisiwn Elusennau** - <http://www.charitycommission.gov.uk/> a 0845 300 0218.

Y Comisiwn Elusennau yw adran annibynnol y Llywodraeth sy'n cofrestru ac yn rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr, gan gynnig llawer iawn o arweiniad i'r elusennau hynny drwy ei wefan a llinell gymorth.

- **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi** - <http://www.hmrc.gov.uk/charities/> a 0300 123 1073.

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cynnig arweiniad amrywiol, ar y we a thrwy linell gymorth bwrpasol, i helpu elusennau a chlybiau i dalu'r dreth gywir a hawlio'r gostyngiadau mae ganddynt hawl iddynt.